

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Iau, 2ail Mawrth, 2023 at  
10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor Laura Wright (Chairman)  
County Councillor Ann Webb (Vice Chairman)

County Councillors: Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler,  
Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Su McConnel,  
Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn,  
Peter Strong, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong,  
Rachel Garrick, Maria Stevens, Steven Garratt, Angela Sandles,  
Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke,  
Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond,  
Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards,  
Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones,  
Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia,  
Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and  
Rachel Buckler

## **OFFICERS IN ATTENDANCE:**

Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Paul Matthews	Prif Weithredwr
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Will Mclean	Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth
Frances O'Brien	Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders	Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy

## **APOLOGIES:**

County Councillors

### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

### **2. PENDERFYNIAD AR Y DRETH GYNGOR A CHYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF AR GYFER 2023/24**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau'r adroddiad a oedd yn cynnwys argymhellion a gynlluniwyd i gydymffurfio â Darpariaethau Statudol. Roedd y penderfyniadau a argymhellwyd hefyd yn tynnu ynghyd oblygiadau praeseptau Treth y Cyngor a gynigiwyd gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chynghorau Tref a Chymuned, a thrwy hynny alluogi'r Cyngor Sir i sefydlu ei brif lefelau Treth y Cyngor yn y gwahanol fandiau eiddo ym mhob ardal Tref neu Gymuned.

Clywsom am y diffyg disgwylidig o £26m yn ein cyllideb a phwysau costau yn cael eu hamlygu.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Iau, 2ail Mawrth, 2023 at 10.00 am

Nid oedd Aelodau'r gwrthbleidiau yn gallu cefnogi cynigion y gyllideb a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Mae teuluoedd a busnesau mewn trafferthion ariannol a byddai llawer o'r cynigion yn ychwanegu at yr anhawster hwn.
- Mae angen i swyddogion fod yn glir ynghylch blaenoriaethau'r weinyddiaeth.
- Rhaid i egwyddor yrru fod ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a chymunedol lle mae eu hangen fwyaf.
- Cynigiwyd bod y weinyddiaeth yn edrych ar roi gwasanaethau cymunedol lleol ar lwybr cynaliadwy drwy ddatblygu cynllun ar gyfer rhai trosglwyddiadau asedau cymunedol.
- Gallai datblygu sefydliadau elusennol fod yn ffordd gadarnhaol ymlaen i Gerddoriaeth Gwent a'r celfyddydau ehangach.
- Byddai'n amser da i annog Cyngorau Cymuned i fynd â materion yn fwy i'w dwylo eu hunain trwy ystyried y lefelau praeseptau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol a Gweithgar fod y cynigion yn nodi llwybr i gadarnach tir, gan ychwanegu y byddai adolygiad o asedau yn ystod y misoedd nesaf a fydd yn anelu at leihau costau rhedeg ac effaith ar yr hinsawdd. Esboniodd hefyd sut yr oeddent yn ail-drefnu gwasanaethau i gefnogi pobl ddigartref ar adeg o ddigartrefedd cynyddol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd at ddatgarboneiddio a sut mae'n parhau i fod wrth wraidd y gyllideb, gan egluro ei fod yn torri ar draws pob gwasanaeth a bod ganddo nifer o gyd-fuddion o ran arbedion cost, iechyd ac effeithlonrwydd.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ansawdd gwaith swyddogion ac roedd yn falch o'r hyn a gyflawnwyd, heb fawr o arian ychwanegol. Dywedodd, o dan weinyddiaeth flaenorol y Ceidwadwyr, roedd disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n cael prydau ysgol am ddim yn perfformio waethaf yng Nghymru, ond eu bod bellach yn newid y ffordd y maent yn gweithredu. Cyfeiriodd at y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a oedd bellach yn mynd y tu hwnt i waith achos unigol ac yn ceisio mynd i'r afael â'r rhesymau pam mae plant yn cyrraedd pwynt argyfwng. Gofynnodd i'r gwrthbleidiau nodi'r camau breision a gymerwyd ar draws ysgolion fel eu bod yn diwallu anghenion unigol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch at yr heriau yn ei faes cyllidebol ac atgoffodd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb i 'blant sy'n derbyn gofal' yn eu rôl fel rhieni corfforaethol.

Amlygodd Arweinydd yr wrthblaid feysydd o bryder o fewn y cynigion gan nodi siom yn y cynnydd yn y dreth gyngor, gan fod yn uwch nag awdurdodau cyfagos gwledig tebyg. Ystyriodd nad oedd gan y weinyddiaeth ymdeimlad o bwrpas ac y gallai camau cynharach fod wedi deillio o'r cynnydd a'r alwad ddilynol ar gronfeydd wrth gefn.

Roedd rhwystredigaethau pellach yn cynnwys:

- Siom bod Tudor Street yn y rhestr o asedau i'w gwerthu o ystyried bod sicrwydd wedi ei roi nad oedd hyn yn wir.
- Diffyg mynd i'r afael ag anghenion oedolion sy'n agored i niwed.
- Diffyg buddsoddiad mewn Priffyrdd.
- Y materion ynglŷn â sbwriel.
- Roedd y sesiynau ymgysylltu wedi bod yn siomedig.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Iau, 2ail Mawrth, 2023 at  
10.00 am**

Ar ôl cael eu rhoi i bleidlais cafodd yr argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad eu gwrthod.

**The meeting ended at 1.10 pm**